

Ffurflen Cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol - Canllaw

Cyflwyniad

- A. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn adolygu ei Gynllun Datblygu Lleol. Bydd yn diweddarau polisiau a chynigion cynllunio i lywio datblygiad yn y Parc Cenedlaethol hyd at 2031, ac ar ôl ei fabwysiadu bydd yn disodli'r Cynllun Datblygu Lleol cyfredol. Fel y cyfryw, bydd yr adolygu yn bwysig i lawer o bobl, sefydliadau a datblygwyr gan y bydd yn gosod y fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn y dyfodol.
- B. Fel rhan o gasglu tystiolaeth i lywio'r gwaith o adolygu'r cynllun, mae'r Awdurdod yn gwahodd y cyhoedd, tirfeddianwyr a datblygwyr i gyflwyno manylion safleoedd y maent yn dymuno iddynt gael eu hystyried ar gyfer unrhyw ddefnydd neu aildddefnydd. Cyfeirir at y safleoedd a nodir fel Safleoedd Ymgeisiol a gellir eu henwebu ar gyfer defnydd tir penodol, gan gynnwys:
- Tai (gan gynnwys tai fforddiadwy)
 - Cyflogaeth
 - Manwerthu
 - Masnachol
 - Hamdden/adloniant
 - Safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr
 - Cynigion defnydd cymysg
- C. Hefyd gall yr Awdurdod gyflwyno safleoedd i'w cynnwys. Bydd unrhyw gyflwyniadau o'r fath yn cael eu hasesu yn yr un modd â phob cyflwyniad arall i gynnwys safle. **Bydd angen i dirfeddianwyr tir sydd eisoes wedi'i ddyrannu yn y Cynllun cyfredol (gyda neu heb ganiatâd cynllunio) sydd heb ei ddatblygu eto, lenwi'r ffurflen hon i ddiweddarau'r wybodaeth angenrheidiol os ydynt am i'w tir gael ei ystyried ar gyfer ei ail-ddyrannu yn y Cynllun newydd.**

Noder os gwelwch yn dda bod hyn yn rhan o ymarferiad casglu gwybodaeth ac nid oes unrhyw ymrwymiad y bydd pob Safle Ymgeisiol yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd gan y bydd angen iddynt fodloni'r meini prawf asesu.

(Gweler Methodoleg Asesu Safleoedd Ymgeisiol - Papur Cefndir).

Ni chodir tâl gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol am asesu Safleoedd Ymgeisiol. (Noder bod yr Awdurdod yn codi tâl am lungopïo ac am gopïau printiedig o ddogfennau sydd ar gael ar-lein. Efallai y bydd tâl gan gyrrff eraill yn berthnasol).

Pwyntiau i'w nodi

- Bydd y wybodaeth a geir yn gymorth i weld pa dir sydd ar gael, ac yn fan cychwyn ar gyfer asesu pa mor addas yw'r safle ar gyfer ei gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol newydd.
- Mae adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol yn broses newydd. **Ni** fydd tir a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol cyfredol (a fabwysiadwyd yn 2010) yn awtomatig yn cael ei gario drosodd i'r Cynllun newydd. Felly dylai'r safleoedd hyn hefyd gael eu cyflwyno fel

Safleoedd Ymgeisiol.

- iii. Mae'r Awdurdod yn dymuno annog cynifer o Safleoedd Ymgeisiol ag y gall yn ystod y cam cynnar hwn o'r adolygiad. Hefyd mae'n hanfodol bwysig, fodd bynnag, bod cyflwyniadau yn cael eu gwneud mewn modd cadarn o ran gwybodaeth ategol. Mae'r ffurflen gyflwyno, felly, yn gynhwysfawr o ran gofyn am wybodaeth am y safle(oedd) ymgeisiol a hyrwyddir. Bydd rhoi cymaint o wybodaeth ag y bo modd yn gymorth i'r Awdurdod arfarnu ac asesu'r safleoedd, er y deëllir na fydd efallai yn bosibl i ateb yr holl gwestiynau ar y ffurflen. Mewn achosion lle mae'r Awdurdod o'r farn nad oes digon o wybodaeth wedi'i gyflwyno, efallai y gofynnir am ragor o wybodaeth. Bydd angen cyflwyno gwybodaeth ychwanegol yn ôl terfynau amser caeth.
- iv. Bydd y posibilrwydd bod y safleoedd a ddyrennir yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn cael eu gwireddu o fewn cyfnod y Cynllun yn cael ei graffu'n drwyadl drwy'r broses Archwilio. Dylai tystiolaeth gywir a chredadwy gael eu cyflwyno gyda'r Safleoedd Ymgeisiol i ddangos bwriad datblygwr/perchennog y tir i ddatblygu'r safle, a data digonol i alluogi gwneud asesiad cadarn gan gynnwys cyfraniadau tai fforddiadwy, seilwaith cymunedol a bod y datblygiad yn hyfyw yn ariannol.
- v. Gellir prynu cynlluniau Arolwg Ordnans ar-lein ar y fersiwn Gymraeg o wefan Porth Cynllunio Cymru neu ar wefan yr Arolwg Ordnans neu o ffynonellau eraill gan gynnwys siopau llyfrau. Hefyd, gellir defnyddio mapiau'r CDLI sy'n bod eisoes ac ar gael i'w lawr-lwytho o wefan yr Awdurdod.
<http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/default.asp?PID=546>
- vi. Bydd safleoedd yn cael eu rhestru ar **Gofrestr o Safleoedd Ymgeisiol** a'u cyhoeddi ochr yn ochr â'r Strategaeth a Ffefrir (Gwanwyn 2017). Bydd hyn yn cynnwys manylion am leoliad y safle, agosrwydd at wasanaethau lleol, hygyrchedd, darparu seilwaith ac a yw'r safle yn cydymffurfio â Strategaeth y Cynllun drafft a Ffefrir neu beidio.
- vii. Bydd manylion pellach yn cael eu hychwanegu at y Gofrestr yn ystod y cam Adneuo o'r Cynllun (Gwanwyn 2018) fydd yn cofnodi'r achos a gyflwynwyd gan gynydd y safle ac unrhyw achosion gan wrthwynebwyr i ddileu'r safle, ynghyd ag ymateb yr Awdurdod.

Llenwi'r Ffurflen

- D. A fydech gystal â llenwi **pob** cwestiwn os oes modd. Lle nad oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno, bydd yr Awdurdod o bosibl yn gofyn am fwy o wybodaeth er mwyn gallu ystyried y safle yn iawn. Bydd yn bwysig sicrhau bod hyn yn cael ei wneud o fewn y terfynau-amser gofynnol. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno yw 4:30 yp ar 25 Tachwedd 2016, trwy'r post neu drwy e-bost at devplans@pembrokeshirecoast.org.uk

Adran 1

Manylion y Safle - Beth i'w gynnwys yn eich cyflwyniad

- E. Rhaid i'r wybodaeth sylfaenol sy'n ofynnol i alluogi pob cyflwyniad gael ei ystyried, gynnwys y canlynol:
- Ffurflen cyflwyno Safle Ymgeisiol wedi'i llenwi. Rhaid llenwi ffurflen newydd ar gyfer pob safle ar wahân a gyflwynir.
 - Plan diweddaraf o'r safle (gorau oll os yw'n Arolwg Ordnans, graddfa 1:1250 neu 1:2500)

gyda'r safle wedi'i amlinellu â llinell **GOCH** a llinell **LAS** o amgylch unrhyw dir sy'n cyd-ffinio â'r safle yn yr un berchnogaeth.

- Unrhyw wybodaeth ychwanegol sy'n berthnasol i'r safle fyddai'n ddefnyddiol wrth ystyried ei addasrwydd i'w ddatblygu.
- Maint y safle - yn unol â'r dull a fabwysiadwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol presennol ac yn y Cyd Astudiaethau ar Argaeledd Tir ar gyfer Tai, dyrennir tir ar gyfer safleoedd o 5 neu fwy o unedau preswyl. Mae hyn yn cyfateb yn fras i 0.15 hectar (0.37 erw) o ran maint. Ni fydd safleoedd sy'n annhebygol o gyflenwi 5 neu fwy o dai yn cael eu dwyn ymlaen fel safleoedd ymgeisiol i gam nesaf yr asesiad. Er mwyn pennu capasiti safle, bydd pob safle yn cael eu hasesu ar sail dwysedd dangosol o 30 o dai yr hectar. Gall safleoedd sydd o dan y trothwy hwn gael eu hystyried fel rhan o arolwg o ffiniau Canolfan i benderfynu a ydynt yn addas i'w cynnwys o fewn ffin y Ganolfan.
- Dylai maint y safle ar gyfer cynigion heblaw tai fod o leiaf yn 0.15ha. Ni ystyrir bod safleoedd dros 2ha yn briodol ar y cyfan o fewn y Parc Cenedlaethol er y byddant yn cael eu hasesu os cyflwynir cynigion.
- Dylai Safleoedd Ymgeisiol a gynigir ar gyfer defnydd cymunedol ond nid o dan berchnogaeth gymunedol gael eu hategu gan dystiolaeth ynghylch tebygolrwydd, e.e. pa mor debygol yw hi y bydd y tirlfeddiannwr yn gwerthu neu'n rhyddhau tir neu a yw'r cyllid angenrheidiol ar gael neu wedi'i addo.

Gwybodaeth gyffredinol

1. **Dynodiad Parc Cenedlaethol** – mae Dibenion y Parc Cenedlaethol wedi'u nodi yn Neddf yr Amgylchedd 1995 ac maent yn sylfaenol i'r gwaith a wneir gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a chyrrff eraill sy'n gweithio yn y Parc Cenedlaethol. Y Dibenion hyn yw:
 - **Gwarchod a gwella** *'gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parciau Cenedlaethol'*.
 - **Deall a mwynhau** *'hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig [y Parciau].'*

Yr hyn sy'n sail i'r dibenion hyn yw Egwyddor Sandford sy'n arddel bod y Diben cyntaf yn cael y flaenoriaeth dros yr ail Ddiben mewn achosion o wrthdaro na ellir ei ddatrys. Gan amlygu bod y Parciau Cenedlaethol yn dirweddau byw â phoblogaeth breswyl, mae yna hefyd **ddyletswydd** i fwrw ymlaen â Dibenion y Parc i: *'feithrin lles economaidd a chymdeithasol y cymunedau lleol, o fewn y Parc Cenedlaethol'. Dylai'r ddyletswydd hon gael ei chyflawni wrth geisio gwireddu Dibenion y Parc Cenedlaethol.*

Gweler Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol -

<http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/default.asp?PID=196>

Bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol a gynhyrchwyd gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol sy'n ymwneud â materion tirwedd hefyd o bosibl o gymorth -

<http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/default.asp?PID=250>

2. **Rhinweddau arbennig** - y rhinweddau hyn yw priodoleddau a nodweddion y Parc Cenedlaethol sydd, yn unigol neu ar y cyd, yn cyfrannu at wneud y Parc Cenedlaethol yn unigryw. I gael gwybodaeth bellach gweler Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol <http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/Files/files/Management%20Plan/Final%20Management%20Plan%202015-19/National%20Park%20Management%20Plan%202015->

[2019%20\(Eng\)%20www.pdf](#)

Hefyd Polisi 8 o'r Cynllun Datblygu Lleol cyfredol:

<http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/Files/Files/Dev%20Plans/LDPTextEng/LDP4A.pdf#Start>

3. **Safleoedd Eithriadig Gwledig a Thai Fforddiadwy** - am ragor o wybodaeth, gweler Canllawiau Cynllunio Atodol yr Awdurdod ar Dai Fforddiadwy:
<http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/default.asp?PID=666>

Hefyd Adran 9.2 o Bolisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 8, Ionawr 2016) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru:

<http://gov.wales/docs/desh/publications/160104ppw-chapter-9-en.pdf>

A Nodyn Cyngor Technegol 2 (2006) a gyhoeddwyd hefyd gan Lywodraeth Cymru:

<http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan2/?lang=en>

Adran 2: Defnydd Tir/Cynllunio

4. **Adeiladau Presennol** - os nad yw'r adeilad yn cael ei ddefnyddio, byddai o gymorth i roi manylion byr am ei gyflwr - a yw'n adfail, a oes to ar yr adeilad, a ellid ei ddefnyddio yn ei gyflwr presennol ac yn y blaen.
5. **Caniatâd cynllunio** – gellir cael manylion am geisiadau cynllunio gan yr Awdurdod. Cysylltwch â'r tîm Cynlluniau Datblygu drwy ffonio'r brif swyddfa yn Noc Penfro neu drwy e-bostio devplans@pembrokeshirecoast.org.uk

Adran 3: Hygyrchedd

6. **Hawliau Tramwy** – mae'r map o'r hawliau tramwy cyhoeddus diffiniol ar gael ar wefan Cyngor Sir Penfro –
http://www.pembrokeshire.gov.uk/content.asp?nav=1626,109,139&parent_directory_id=646&id=26774&textonly=true
7. **Man Agored** - mae llawer o'r manau agored wedi'u nodi ar y map cynigion yn y Cynllun Datblygu Lleol presennol. (*Noder nad yw pob un o'r manau agored a nodir ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd ar bob adeg*).
<http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/Files/files/Mapping/Pages/LDPMMap.html>

Hefyd dylid ystyried tir mynediad agored, traethau neu ardaloedd eraill lle mae'r cyhoedd, ar y cyfan, yn cael mynediad.

8. **Cyfleusterau Cymunedol** - gall y cyfleusterau hyn gynnwys pethau megis: siop cyfleustra, swyddfa'r post, maes chwaraeon, ysgol gynradd, tafarn, neuadd gymunedol, addoldy, blwch postio.
9. **Trafnidiaeth Gyhoeddus** – mae manylion am y llwybrau bysiau a threnau ac arosfannau rheolaidd ar gael ar wefan Cyngor Sir Penfro –
<http://www.pembrokeshire.gov.uk/content.asp?nav=838,1629>

Adran 4: Yr Amgylchedd

10. **Safleoedd Tir Llwyd/Maes Glas** – gellir cael gwybodaeth am yr hyn a ddiffinnir yn dir a ddatblygwyd o'r blaen (neu dir llwyd) ym Mholisi Cynllunio Cymru; Ffigur 4A (tudalen 70) - <http://gov.wales/docs/desh/publications/160104ppw-chapter-4-en.pdf>
11. **Datblygu a Risg Llifogydd - Nodyn Cyngor Technegol 15 (TAN15)** - mae'r ddogfen hon wedi'i chyhoeddi gan Lywodraeth Cymru, a gellir ei gweld ar eu gwefan - <http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan15/?lang=en>
 Hefyd gweler y Mapiau Cyngor ar Ddatblygu gan Lywodraeth Cymru sy'n dangos ardaloedd lle mae perygl o lifogydd – <http://data.wales.gov.uk/apps/floodmapping/>
 Cyfeirier hefyd at y Cynllun Rheoli Traethlin perthnasol ar gyfer yr ardal:
 - Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru (ar gyfer yr ardal o Benrhyn Santes Ann i Poppit) http://www.westofwalesmp.org/content.asp?nav=23&parent_directory_id=10
 - Cynllun Rheoli Traethlin De Cymru (ar gyfer yr ardal o Benrhyn Santes Ann i Bentywyn) <http://www.southwalescoast.org/content.asp?id=58>
 Mae'r dogfennau hyn yn nodi'r posibilrwydd o lifogydd ar hyn o bryd ac yn y dyfodol ar rannau o'r morlin, gan gymryd i ystyriaeth y newid yn yr hinsawdd a'r codiad yn lefel y môr a ragwelir.
12. **Dynodiadau Tirwedd** - gall y dynodiadau hyn gynnwys - Arfordir Treftadaeth, Ardaloedd Cadwraeth, Parciau a Gerddi Hanesyddol, Ardaloedd Tirwedd Hanesyddol (hefyd gweler pwynt 13 isod). <https://naturalresources.wales/conservation-biodiversity-and-wildlife/find-protected-areas-of-land-and-seas/?lang=en>
- Hefyd bydd y dogfennau canlynol o bosibl yn ddefnyddiol sydd ar gael ar wefan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol –
 - Aseu Cymeriad y Dirwedd (Mehefin 2011)
 - Astudiaeth o Gapasiti Anheddiad (Rhagfyr 2007) â diweddariadau 2008.<http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/default.asp?PID=249>
<http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/default.asp?PID=614>
13. **Safleoedd dynodedig** - gall y rhain gynnwys - Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, Gwarchodfeydd Natur Morol, Gwarchodfeydd Natur Lleol, Safleoedd Ramsar, Safleoedd Adolygu Cadwraeth Ddaearegol. Dylid gofyn am ragor o wybodaeth gan Adnoddau Naturiol Cymru. (<https://naturalresources.wales/conservation-biodiversity-and-wildlife/find-protected-areas-of-land-and-seas/?lang=en>)
14. **Dynodiadau Hanesyddol/Archeolegol** - mae'r rhain yn cynnwys Tirweddau Hanesyddol (sydd wedi'u cynnwys ar y Tirweddau Hanesyddol yng Nghymru ac ar Gofrestr Parciau a Gerddi Hanesyddol yng Nghymru), Henebion Cofrestredig ac Adeiladau Rhestredig. Gellir cael gwybodaeth bellach gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed. <http://www.dyfedarchaeology.org.uk/>
 Hefyd gweler Cadw - <http://cadw.gov.wales/?lang=en>
 A Tirweddau Hanesyddol, Parciau a Gerddi - <http://cadw.gov.wales/historicenvironment/protection/historiclandscapes/?lang=en>
15. **Gweladwy** - lleoliadau manwl lle gellir gweld y safle; a yw'n weladwy o bell neu o

olygfannau penodol megis Llwybr yr Arfordir neu olygfannau uwch. Hefyd a ellir gweld ar hyn o bryd i mewn neu drwy'r safle nodweddion diffiniol penodol neu nodweddion pwysig.

16. **Halogiad** - mae'r wefan ganlynol yn rhoi gwybodaeth am safleoedd sydd wedi'u halogi – <https://www.gov.uk/contaminated-land/overview>
Noder y gall safleoedd gael eu halogi gan ddefnydd neu ddefnydd blaenorol o'r tir neu ar dir cyfagos i'r safle.
17. **Dosbarthiad Tir Amaethyddol** - am ragor o wybodaeth gweler gwefan Llywodraeth Cymru: <http://gov.wales/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/agricultural-land-classification/?lang=en>

Adran 5: Seilwaith, Cyfleustodau a'r Gallu i Gyflawni

18. **Seilwaith a Gwasanaethau** - bydd angen i chi gysylltu â'r darparwyr cyfleustodau –
 - Dŵr a Charthffosiaeth – mae Dŵr Cymru yn cynnal gwasanaeth cyn-gynllunio. Noder bod Dŵr Cymru yn codi ffi o £155 am y gwasanaeth hwn. Gellir cael manylion ar: <http://www.dwrcymru.com/en/Developer-Services/Pre-Planning.aspx>
 - Trydan – Western Power <https://www.westernpower.co.uk/>
 - Nwy - Grid Cenedlaethol <http://www2.nationalgrid.com/uk/>
 - Telathrebu - BT neu ddarparwyr eraill.
12. **Mynediad i'r Safle** - Os yw'r mynediad i'r safle yn uniongyrchol o Gefnffordd, yna bydd angen i chi gysylltu â'r asiantaeth Cefnffyrdd - <http://www.southwales-tra.gov.uk/default.aspx?page=10982>
Ar gyfer materion priffyrdd eraill, cysylltwch â'r adran Rheoli Datblygu Peirianyddol Cyngor Sir Penfro.
13. **Y Gallu i Gyflawni** – creffir ar hyn yn drylwyr drwy'r broses Archwilio i sicrhau bod safleoedd a ddyrannwyd yn y Cynllun Newydd yn cael eu dwyn ymlaen i'w datblygu. Dylech gynnwys yma yr holl wybodaeth i ddangos pryd y gall y safle gael ei gyflawni. Mae gwybodaeth a allai fod o gymorth i'r Awdurdod ddangos ymrwymiad i ddatblygu'r safle yn cynnwys cyswllt â darparwyr seilwaith megis Dŵr Cymru, yr Awdurdod Priffyrdd ac ati; a oes unrhyw waith dichonoldeb wedi'i wneud; trafodaethau gyda Chymdeithas Tai ar ddarparu tai fforddiadwy ac ati. Byddai manylion am brofi'r farchnad, datblygwyr a buddsoddwyr sydd â diddordeb hefyd yn gymorth.

Adran 6: Cynaliadwyedd Safle

14. Gweler Atodiad 2 y Papur Cefndir ar Raddfa Twf Lleol y Cynllun Datblygu Lleol (Adolygiad 1^{af}) am restr o'r Canolfannau – <http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/Files/files/Dev%20Plans/LDP2/background%20papers/Scale%20and%20Location%20of%20Growth%20Paper%20January%202016.pdf>
15. **Cynaliadwyedd** - mae Llywodraeth Cymru wedi pennu'r Polisi Cynllunio cenedlaethol ar Gynaliadwyedd ym Mhennod 4 o Bolisi Cynllunio Cymru - <http://gov.wales/docs/desh/publications/160104ppw-chapter-4-en.pdf>
yn benodol gweler adran 4.7 o'r bennod hon sy'n ymwneud â strategaeth aneddiadau cynaliadwy a lleoli datblygiadau newydd.

Adran 7: Materion Cymunedol

15. **Materion Cymunedol** - mae rhestr o gysylltiadau ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned ar gael o wefan Cyngor Sir Penfro - http://www.pembrokeshire.gov.uk/content.asp?nav=101,1583&parent_directory_id=646

Beth sy'n digwydd nesaf?

- Bydd pob safle a gyflwynir yn cael rhif cyfeirnod unigryw.
- Byddwn yn cydnabod derbyn pob safle a gyflwynir gennych.
- Bydd manylion y safle yn cael eu nodi ar y **Gofrestr o Safleoedd Ymgeisiol**.

Noder na ellir trin y cyflwyniadau yn rhai cyfrinachol.




- Bydd eich manylion yn cael eu hychwanegu at restr bostio Cynllun Datblygu Lleol yr Awdurdod.
- Efallai y byddwn yn cysylltu â chi am fwy o fanylion neu wybodaeth am eich safle.
- Efallai y byddwn am ymweld â'ch safle ac yn cysylltu â'r tîrffediannwr am ganiatâd i wneud hynny.
- Bydd pob safle yn cael ei asesu, a rhoddir gwybod i chi am ganlyniad yr asesiad hwnnw fel rhan o'r Ymgynghori ar Strategaeth a Ffeirir y Cynllun Datblygu Lleol (o bosibl yn ystod Ebrill/Mai 2017).

Dyddiad Cau ar gyfer Cyflwyno Ceisiadau

Er mwyn gallu ystyried Safleoedd Ymgeisiol fel rhan o'r broses o adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol, rhaid dychwelyd y ffurflen gyflwyno a'r plan atodedig erbyn 4:30 ym ar 25 Tachwedd 2016, trwy'r post neu drwy e-bost at devplans@pembrokeshirecoast.org.uk

Gwybodaeth bellach ac Enwau Cyswllt

Am gymorth pellach ar y broses Safleoedd Ymgeisiol neu ar Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol yn gyffredinol

-  edrychwch ar ein gwefan (PCNPA.org.uk)
-  e-bostiwch devplans@pembrokeshirecoast.org.uk neu
-  cysylltwch â'r tîm Cyfarwyddyd y Parc yn Swyddfa'r Parc Cenedlaethol ar 01646 624800.